

Dathlu Deng mlynedd o fod yn Genedl Masnach Deg

Ddeng mlynedd yn ôl daeth Cymru'n Genedl Masnach Deg gyntaf y byd – roedd hyn yn ffrwyth gwaith ysgolion, trefi, siroedd, eglwysi a nifer o fudiadau eraill dros sawl blwyddyn i gynyddu gwerthiant a chodi ymwybyddiaeth o Fasnach Deg.

Mae hi'n anodd cynnal y momentwm a pharhau'r cynnydd wrth i'r stori fynd yn hen hanes ac i bobl gollu'r wefr. Ond mae'r gwahaniaeth y mae Masnach Deg yn ei wneud yn parhau'n obaith ac yn gynhaliach i rai o gymunedau tlotu'n byd ni. A gan fod siopa'n rhan o'n bywyd pob dydd, mae'n amhosibl i ni osgoi'n cyfrifoldeb!

Agor y drws ydi thema Pythefnos Masnach Deg eleni a'r syniad o addurno drws eich eglwys – neu ryw ddrws arall amlwg o fewn eich cymuned i'w droi'n wahoddiad i bobl gamu i mewn i fyd Masnach Deg – i fynychu rhyw ddigwyddiad arbennig a dysgu mwy am y gwahaniaeth a wneir pan fyddwn yn dewis prynu danteithyn neu ddilledyn sy'n cario'r marc.

Un o'r ffermwyr cyntaf i mi gofio'u croesawu i Gymru oedd Regina Joseph o ynys Dominica, un o Ynysoedd y Gwynt (Windward islands). Ffermwr bananas oedd Regina – a'i bywyd wedi cael ei drawsnewid wrth i'r ynys droi at gwmni masnach deg. Cynyddodd



Cymru Masnach Deg
Fair Trade Wales



'Y mae eich dwylo'n llawn gwaed; ymolchwch, ymlanhewch. Ewch â'ch gweithredoedd drwg o'm golwg; peidiwch â gwneud drwg, dysgwch wneud daioni. Ceisiwch farn, achubwch gam y gorthrymedig, amddiffynnwch yr amddifad, a chymerwch blaid y weddw'

Gair Duw drwy'r proffwyd Eseia

ei hincwm o \$8 am focs o fananas i \$24 – ac ar ben hynny roedd ei chymuned yn derbyn \$1.75 am bob bocs i wario ar welliannau cymunedol. Roedd y trawsnewidiad yn aruthrol – o fewn ychydig flynyddoedd roeddynt wedi sicrhau adnoddau i'r ysgolion, clinig iechyd,

marc. Mae prynu nwyddau Masnach Deg yn rhoi'r esgus perffaith i ni gael darn bach o siocled neu banad arall er mwyn helpu mwy o bobl!!

Mae Cymru Masnach Deg yn gobeithio cael ffermwr ar ymweliad eto eleni – chwiliwch ar eu gwefan neu cysylltwch â'ch grŵp masnach deg lleol i gael gwybod lle fydd o/hi ac ewch draw i estyn croeso a chlywed eu stori!

Anna Jane Evans

Cynnydd mewn gwerthiant Masnach Deg

Yn ôl adroddiad diweddar gan Fasnach Moesegol gwelwyd cynnydd o 2.3% yng ngwerthiant bwyd a diod Masnach Deg yn y Deyrnas Gyfunol yn 2015/6. Cododd y cyfanswm o £1572 miliwn i £1608 miliwn.